CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
7 IONAWR 2014, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL: Cynghorwyr N Jones, S Hughes, A Evans, D I Roberts, J Evans, (Cyngor Sir), A Mummery (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng R Edwards, G Roberts, M Jones (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd Cyng D I Roberts. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb. Hefyd, cynigodd y Cadeirydd llongyfarchion ar rhan y Cyngor i Gwenno Pugh (merch Cyng Selwyn Hughes) ar enillydd ferch gyntaf sioe S4C Fferm Ffactor
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 6 Tachwedd 2013. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn - pawb yn cytuno.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Star (Ilwybr)** - Darllenwyd llythyr gan Mr John Foulkes, Marchynys, Penmynydd yn dweud bod o a perchnogion eraill ar hyd Lon Star wedi rhoi tir i'r Cyngor Sir i ledu'r lon ac i adeiladu palmant. Hefyd mae y Cyngor Sir yn disgwyl am grant i symud ymlaen. Gofynwyd i'r Clerc cysylltu a'r Cyngor Sir am y sefyllfa bresennol.
4.2	**Tir maes chwarae Penmynydd** - Bydd angen trefnu cyfarfod ar safle tai elusen Penmynydd i penderfynnu os oes tir ar gael (gweler cofnodion mis diwethaf)
4.3	**Maes chwarae Star** - Dywedodd Cyng N Jones bod cyfarfod wedi cael ei gynnal i creu pwyllgor maes chwarae. Mae mwy o pobl gyda diddordeb a bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal i symud ymlaen.
4.4	**Gor-yrru Star** - Mae'r Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor Sir yn gofyn yn lle mae'r gor-yrru. Bydd y Clerc yn ymateb (ar ol y bont rhwng Bryn Ffynnon - Stad Garnedd)
5	**Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon**
	Cynllunio
5.1	41C104B cais llawn am addasu ag ehangu yn Carreg Sant, Penmynydd - dim sylwadau
5.2	41C125B/EIA/RE (Gwybodaeth ychwanegol) Cais llawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kw - 900kw gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, dimaedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lon A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy - penderfynwyd gofyn am mwy o wybodaeth a symud y mater ymlaen i'r cyfarfod nesaf
5.3	41C5D Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer storfa peiriannau, bwyd a chadw anifeiliaid ynghyd a chreu manege ar dir yn Rhydeilian, Penmynydd - dim sylwadau
	Llofnod **Cadeirydd** **05.02.14**

	Priffyrdd
5.4	Coridor yr A5 - Llwybr Cerdded a Beicio o Borthaethwy - Gaergybi - gwybodaeth yn unig. Gofynwyd i'r Clerc ymateb yn dweud bod y Cyngor yn croesawu y llwybr
5.5	Gor-yrru Star - gweler 4.4
	Prif Weithredwr
5.6	Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 29.01.14 - gwybodaeth yn unig
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Mr J Foulkes - gweler 4.1
6.2	Unllais Cymru - Agenda y cyfarfod nesaf 29.01.14
6.3	Unllais Cymru - Garddwestau Palas Buckingham - bydd y Clerc yn cynnig y gwahoddiad i'r Cadeirydd
7	**MATERION ARIANNOL**
	Penderfynwyd talu y canlynnol:
7.1	Papur Menai - cais ariannol - penderfynwyd ail edrych ar diwedd y flwyddyn ariannol
7.2	Precept 2014/2014 - penderfynwyd ail edrych ar y mater yma yn y cyfarfod nesaf
7.3	Penderfynwyd talu bil Mr J Roberts (Archwiliwr) £40.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Costau maes chwarae star - bydd y mater yma yn cael ei drefnu gan y pwyllgor newydd
8.2	Elusendai - mae coed ar tir yr Elusendai angen ei dorri. Gofynwyd i'r Clerc dod a'r mater yma at sylw yr Eglwys yng Nghymru
	Llofnod **Cadeirydd** **05.02.14**